| | Barn gryno Cwestiwn 4<br>Gofal, cymorth ac arweiniad |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| **4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu** | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Asesu, olrhain a sicrhau cynnydd disgyblion ADY:** | Mae`r cyswllt rhwng y rhaglenni ymyrraeth ysgol gyfan a darpariaeth medrau'r adran bellach wedi datblygu ac yn cael effaith pellach ar safonau disgyblion.<br><br>Pa mor dda y mae'r adran yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn unigol? Beth yw`r effaith?<br>Pan mae'r adran yn cael gwybod targedau'r dysgwyr mae'r adran yn ymdrechu i atgoffa a chefnogi'r dysgwyr i gwblhau'r targedau yma o fewn y pwnc. Bydd yr adran yn canmol cynnydd y dysgwyr ady ac yn Estyn mwy o gymorth penodol ble mae'r angen. Effaith hyn yw bod y dysgwyr yma yn gwneud cynnydd o fewn y pwnc ac yn llwyddo yn y pwnc. |
| **Cyswllt â rhieni** | Mae'r adran yn mynychu pob noson rieni ar gyfer pob blwyddyn a nosweithiau agored yr ysgol. Mae gwaith cartref yn cael ei osod ar 'Show my homework', ac mae gan rieni fynediad i'r safle yma.<br>Mae'r adran hefyd yn gyrru negeseuon testun yn canmol y dysgwyr ar dasgau llwyddiannus a gyflwynwyd. Mae hyn yn ffordd effeithiol o gyd weithio efo rhieni i gefnogi e.e. atgoffa o ddyddiad ffug arholiad neu brawf. Bydd yr adran hefyd yn gyrru gwaith siomedig CA4 adref drwy'r post at sylw rhieni er mwyn derbyn eu cefnogaeth i wella cyrhaeddiad y dysgwyr sydd wedi tangyflawni mewn tasg benodol. |
| **Adroddiadau disgyblion:** | Ydy adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plentyn a sut gall eu plentyn wneud rhagor o gynnydd yn y dyfodol?<br>Ydi, mae'r adroddiadau yn son yn benodol am y cynnydd mae'r disgybl yn ei wneud gan nodi enghreifftiau penodol e.e. sgil o werthuso, gwybodaeth a dealltwriaeth, termau ayyb. Mae adroddiadau'r adran hefyd yn nodi targedau ar gyfer gwella yn ogystal â pha gymorth gall y rhieni Estyn er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i wneud cynnydd yn y pwnc. |
| **Tystiolaeth** | |
| • Strategaeth ADY.<br>• Adolygiad cynlluniau unigol<br>• Trefn gyswllt rhieni.<br>• Adroddiadau blynyddol | |

| **4.2 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol)** | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Cyfrifoldeb am waith.** | Sut mae`r adran yn meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb am waith gan ddisgyblion?<br>Mae'r adran yn sicrhau bod pob darn o waith yn cael ei gwblhau gan bob disgybl. Mae'r adran yn cosbi disgyblion sydd ddim yn copïo fyny neu yn tangyflawni. Bydd yr adran yn gyrru negeseuon testun adra i rieni disgyblion os nad ydynt wedi gwneud tasg neu wedi gwneud yn wael mewn prawf, ond hefyd er mwyn llongyfarch os yw'r disgybl wedi gwneud yn dda mewn darn o waith. Mae'r adran hefyd yn gweithio'n agos efo cymorthyddion sy'n gweithio'n clwb neu'n gweithio'n benodol efo disgyblion yn y clwb. |
| **Paratoi am y cam nesaf.** | Pa mor dda y darperir profiadau sy'n helpu paratoi pobl ifanc ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn?<br>Mae'r adran yn rhoi amryw o gyfleoedd gwerthfawr i'r dysgwyr er mwyn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf e.e. gwaith grŵp efo amodau gwahanol, cyflwyniadau llafar, dysgu am gredoau a thraddodiadau pobl eraill bydd ein dysgwyr yn dod are u traws yn ystod eu taith bywyd. Mae'r adran hefyd yn datblygu'r sgil o werthuso sy'n rhoi'r sgil a hyder i'r dysgwyr mynegi barn eu hunain ond hefyd yn dysgu i barchu safbwyntiau |

| | |
|---|---|
| | gwahanol iddyn nhw eu hunain. Gweler cynlluniau gwaith am fwy o enghreifftiau. |

**Tystiolaeth**

- Rhaglen adrannol
- Rhaglen bynciol allgyrsiol.
- Gweithdai amser cinio, ôl ysgol a gwyliau.

| Crynodeb o faterion i roi sylw iddynt | | |
|---|---|---|
| **Agwedd** | **Cryfderau** | **Materion ar gyfer gweithredu pellach** |
| 4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu. | Adnabyddiaeth o'r dysgwyr yma | Cael manylion yn rheolaidd gan yr UDRH |
| 4.2 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol). | Cryfder amlwg oherwydd natur y pwnc-testunnau a drafodir, trafodaethau, gwerthuso. | Parhau I ddefnyddio enghreifftiau cyfoes. |

**Dyddiad adolygu:** **27.10.17** **Gan:SR**